


WALTERS, JOHN (1760 - 1789), clericwr, bardd, ac ysgolhaig

Enw: John Walters
Dyddiad geni: 1760
Dyddiad marw: 1789
Rhiant: John Walters
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: clericwr, bardd, ac ysgolhaig
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth; Ysgolheictod ac Ieithoedd
Awdur: Griffith John Williams

Ganwyd 11 Mehefin 1760 yn Llandochoau, mab hynaf [John Walters](#), rheithor Llandochoau, ac fe'i haddysgwyd yn ysgol ramadeg y Bont-faen. Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, yn 1777, a chymerth y radd B.A. yn 1781 a'r radd M.A. yn 1784. Bu'n islyfrgellydd yn llyfrgell Bodley. Yn 1783 fe'i penodwyd yn brifathro ysgol ramadeg y Bontfaen, a chafodd guradiaeth yn y dref honno. Tua diwedd 1784 fe'i penodwyd yn brifathro ysgol ramadeg Rhuthyn, ac wedi hynny cafodd reithoraeth Efenechtyd, lle y bu farw 28 Mehefin 1789.

Enillodd gryn sylw fel bardd Saesneg, a phan oedd yn fyfyrwr yng Ngholeg Iesu,, cyhoeddodd gyfrol o gerddi *Poems, with Notes* , 1780. Y mae'n eglur fod ei dad wedi ennyn ei ddiddordeb mewn astudiaethau Cymreig, ac yn 1782 cyhoeddodd gyfieithiadau mydryddol o hen gerddi Cymraeg, *Translated Specimens of Welsh Poetry*. Tynnodd sylw Cymry Llundain, ac wedi marw [Richard Thomas](#) fe'i hanogwyd i gyhoeddi canu [Llywarch Hen](#), gyda chyfieithiad Saesneg. Cyhoeddwyd darn o'r cyfieithiad hwn yn llyfr [Warrington](#), *The History of Wales*, 1788. Rhoes nodiadau i [Edward Jones](#) ('Bardd y Brenin') i'w cynnwys yn ei ragymadrodd i'w lyfr, *Musical and Poetical Relicks*, 1784. Dengys llythyrau'r cyfnod fod Cymry Llundain yn edrych arno fel ysgolhaig ifanc a allai hyrwyddo eu cynlluniau hwy. Cyhoeddodd amryw lyfrau eraill, gan gynnwys argraffiad o lyfr Roger Ascham, *Toxophilus*.

Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

Ffynonellau

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen (1852)*

Geirlyfr Bywgraffiadol o Enwogion Cymru (1870)

Notable Welshmen (1700–1900) (1908)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [39549388](#)

Wikidata: [Q6262936](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.